**CYMERADWYAETH O DAN ADRAN 37(3)(b) O**

**DDEDDF PLANT A PHOBL IFANC 1963**

**AR GYFER**

**Girlguiding Cymru**

Yn unol â'r pwerau a roddwyd o dan adran 37(3)(b) o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1963, mae Gweinidog Addysg Llywodraeth Cymru'n cymeradwyo:

**Cynyrchiadau Girlguiding Cymru; ‘gangshows’, pantomeimau a chynyrchiadau amatur yng Nghymru**

at ddibenion adran 37(3)(b) mewn perthynas ag unrhyw berfformiadau o dan drefniadau a wneir gan Girlguiding Cymru rhwng 14 Mehefin 2023 a 13 Mehefin 2025.

Rhoddir y Gymeradwyaeth yn amodol ar gydymffurfio â'r amodau canlynol:

- Bod gofynion yn rhannau 3, 4 a 5 o Reoliadau Plant (Perfformiadau a Gweithgareddau) (Cymru) 2015 a chanllawiau cysylltiedig (Cadw Perfformwyr Ifanc yn Ddiogel 2015) yn cael eu dilyn;

- Gwirfoddolwr cydnabyddedig Girlguiding Cymru sy'n gyfrifol am drefnu a goruchwylio perfformiadau unigol a bydd rheolwr llinell wirfoddol yn sicrhau bod y cynllunio yn unol â pholisïau a gweithdrefnau Girlguiding UK ac yn cytuno i'r telerau a nodir yn y BoPA;

- Mae Girlguiding Cymru yn gyfrifol am hysbysu awdurdodau lleol a rhaid iddynt weithio'n agos gyda'r awdurdod lleol perthnasol wrth drefnu unrhyw Gangshows, pantomeimiau a chynyrchiadau amatur eraill. Rhaid i'r lleoliad cynhyrchu a'r trefniadau ddilyn cyngor a chanllawiau awdurdodau lleol;

- Bydd Girlguiding Cymru yn parhau i fod yn gyfrifol am y plant yn eu gofal wrth gynhyrchu unrhyw berfformiad, mai cyfrifoldeb Girlguiding Cymru yw diogelu'r plant rhag niwed a cham-drin a bod yn gwbl ymwybodol o'r gweithdrefnau diogelu i'w cymryd.

Llofnodwyd gan y Gweinidog Addysg

**Jeremy Miles AS/MS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language
14 Mehefin 2023